

COFNODION BWRDD YR YMDDIRIEDOLWYR A GYNHALIWDYD AR 24 MEDI 2020

RHITH-GYFARFOD

Rhif Age nda	Nodiadau	Camau Gweithr edu
	<p>YN BRESENNOL: Roger Lewis (yn y Gadair); Carol Bell (Is-lywydd); Hywel John (Trysorydd); Carys Howell; Catherine Duigan; Glenda Jones; Gwyneth Hayward; Hywel Ceri Jones; Kay Andrews; Madeleine Havard; Michael Prior; Rachel Hughes; Robert Pickard; Abigail Lawrence; Richard Thomas; David Anderson, Cyfarwyddwr Cyffredinol; Neil Wicks, Prif Swyddog Gweithredol / Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol; Nia Williams, Cyfarwyddwr Addysg a Rhaglenni Cyhoeddus; Janice Lane, Cyfarwyddwr Profiad Ymwelwyr; Kath Davies, Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil; Heledd Fychan, Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus ac Elaine Cabuts, Ysgrifennydd yr Amgueddfa.</p> <p>ERAILL YN Y CYFARFOD: Maria Ioannou, Swyddog Datblygu; Catrin Taylor, Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu, Gwen Williams, Cadeirydd y Cyfeillion; Steffan Roberts, Dirprwy Gyfarwyddwr Is-adran Diwylliant a Chwaraeon, Llywodraeth Cymru;</p>	
	<p>DATGANIADAU O FUDDIANNAU</p> <ul style="list-style-type: none"> Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau. 	
	<p>Yn Sesiwn Gaeëdig y cyfarfod trafododd y Bwrdd: Adroddiad y Cyfarwyddwr Cyffredinol, strwythur yr Uwch Dîm Gweithredol, Llywodraethu.</p> <p>Ar y pwynt hwn, agorwyd y cyfarfod i'r cyhoedd. Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd yn bresennol.</p>	
1	<p>GAIR O GROESO AC YMDDIHEURIADAU</p> <p>Croesawodd Roger Lewis bawb i'r cyfarfod. Croesawyd Gareth Hills, cynrychiolydd Undeb yr FDA a Bethan Price, cynrychiolydd Undeb y PCS i'r cyfarfod fel Arsylwyr. Cafwyd ymddiheuriadau gan Rob Humphreys.</p>	
2	<p>COFNODION</p> <p><u>Penderfynwyd:</u> Cafodd Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Mehefin 2020 eu cymeradwyo.</p>	
3	<p>MATERION YN CODI</p> <p>Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'r cofnodion blaenorol.</p>	
4	<p>1. ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR CYFFREDINOL</p> <p>1.1. <u>Derbyniwyd:</u> Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol.</p> <p>1.2. <u>Adroddwyd:</u> Adroddodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol bod Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru bellach ar gau o ganlyniad i'r cyfyngiadau symud lleol a gyflwynwyd yn ardal awdurdod lleol Casnewydd. Ailddatganodd yr Amgueddfa ei hymrwymiad i ymateb i Mae Bywydau Du o Bwys, ac i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd ac ecolegol – nod drafft canolog yn ymgynghoriad yr Amgueddfa ar gyfer y strategaeth Ddeng Mlynedd newydd, Amgueddfa Cymru 2030.</p> <p>1.3. Mewn perthynas â'r Gronfa Adferiad Diwylliannol, roedd yr Amgueddfa'n deall nad oedd yn gymwys i wneud cais ar gyfer y gronfa hon. Cadarnhaodd y Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Diwylliant a Chwaraeon mai Siambr y Seren, uned o fewn Llywodraeth Cymru a sefydlwyd i gynghori Gweinidogion yn ystod yr argyfwng hwn fyddai'r llwybr priodol ar</p>	

gyfer cefnogi sefydliadau a ariennir yn gyhoeddus megis yr Amgueddfa. Nid oedd unrhyw benderfyniadau ariannu wedi'u gwneud eto. Nododd y Llywydd bod tri phryder i'r Amgueddfa a'r sector: goroesi, cynaliadwyedd a blaenoriaethau strategol. Nododd yr Ymddiriedolwyr bod MAALD yn gorfod pledio achos yr Amgueddfa i gydweithwyr yn Llywodraeth Cymru, ac roedd y Bwrdd yn meddwl tybed a oedd y safbwynt a gynigiwyd gan Amgueddfa Cymru wrth geisio bod yn rhan o'r ateb, yn ddigon cryf. Cadarnhaodd Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Diwylliant a Chwaraeon bod yr holl gyrff cyhoeddus wedi ymateb yn eithriadol a bod y rhestr hir o ystyriaethau yn nwylo'r Dirprwy Weinidog. Roedd y 'gofyn' a'r angen yn glir, a'r gobaith oedd y byddai'n gallu rhoi eglurder yn fuan. Roedd Llywodraeth Cymru hefyd wrthi'n adolygu'r toriad arfaethedig yn ystod y flwyddyn o 2% i Gymorth Grant yr Amgueddfa. Mewn perthynas â'r Gronfa Adferiad Diwylliannol, roedd Cyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru'n rheoli ceisiadau ar y cyd gan sefydliadau ac unigolion.

1.4. Gofynnodd y Trysorydd am y newyddion diweddaraf mewn perthynas â phapur Blaenoriaethau Diwylliannol a gomisiynwyd gan y Dirprwy Weinidog cyn y pandemig, oedd yn ceisio darparu agwedd weledigaethol a strategol ar gyfer y dyfodol. Nododd y Dirprwy Gyfarwyddwr, Diwylliant a Chwaraeon y byddai'n adeiladu ar adroddiadau a gwaith blaenorol, a'r nod oedd y dylai bontio dau dymor llywodraeth, fel bod Blaenoriaethau Diwylliannol yn cyd-fynd â blaenoriaethu cyllido. Yn ystod mis Hydref byddai cyfres o gyfarfodydd â phartneriaid, yn arwain at ddatganiad llafar ym mis Rhagfyr 2020. Nododd y Llywydd y ffordd mae gwaith yr Amgueddfa'n pontio nifer o bortffolios Llywodraeth Cymru. Roedd yn meddwl tybed sut y gallai geisio cyllid ar wahân i'r isadran Diwylliant a Chwaraeon i alluogi'r Amgueddfa gyflawni ei gwaith yn well, gyda'r posibilrwydd o ail-greu Cymru mewn ymateb i'r pandemig. Roedd cyllid yn mynd i fod yn arbennig o heriol ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2021/22. Ymatebodd Dirprwy Gyfarwyddwr, Diwylliant a Chwaraeon mai'r flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru oedd y materion yn ystod y flwyddyn yr oedd angen mynd i'r afael â nhw o fewn y chwe mis nesaf, gan ymateb i flaenoriaethau cychwynnol y pandemig. Nid oedd gan Lywodraeth Cymru gyllideb tu hwnt i fis Ebrill 2021. Y nod fyddai cael cytundeb ariannu tair blynedd, gyda chyllid pedair blynedd ar gyfer cyfalaf.

1.5. Mewn perthynas â gallu'r Amgueddfa i fynd i'r afael â chynaliadwyedd ariannol nododd y Cyfarwyddwr Cyffredinol mai'r hyn sy'n peri pryder i'r sefydliad yw lefel y cronfeydd anghyfyngedig, a bod y rhain wedi bod yn lleihau flwyddyn ar ôl blwyddyn. Roedd yr Amgueddfa wedi gallu pledio achos popeth roedd Sain Ffagan wedi gallu'i gyfrannu i Gymru, yn economaidd ac yn gymdeithasol. Roedd yr Amgueddfa o'r farn ei bod yn rhan o'r gwasanaeth cyhoeddus ehangach sy'n mynd i'r afael ag iechyd, addysg a newid hinsawdd. Nododd y Prif Swyddog Gweithredol bwysigrwydd sicrhau bod y strategaeth newydd yn iawn, ac osgoi'r angen i 'frwydro' am adnoddau. Roedd angen strategaeth ddeng mlynedd annibynnol ar y sefydliad ond strategaeth oedd yn cyd-fynd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Roedd yr elfen 'strategol' yr un mor bwysig â 'goroesi' a 'chynaliadwyedd'.

- 1.6. Nododd y Bwrdd bod angen arweiniad gan Lywodraeth Cymru: yr hyn sydd arnynt ei eisiau gan bartneriaid ledled Cymru o ran diwylliant a'i gyfraniad i Gymru.
- 1.7. Roedd Dirprwy Gyfarwyddwr, Diwylliant a Chwaraeon yn cytuno â theimladau'r Bwrdd. Roedd amseriad strategaeth yr Amgueddfa'n gyfle gwych i weithio â sefydliadau partner a Chyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru ar themâu a blaenoriaethau allweddol. Roedd yn gyfle i Lywodraeth Cymru wrando ar flaenoriaethau'r Amgueddfa.
- 1.8. Penderfynwyd: Yn unol â hynny, a bod y newyddion diweddaraf wedi'i nodi.

Gadawodd Kay Andrews y cyfarfod am 12:10

2. ADRODDIAD AR BERFFORMIAD CYNLLUN GWEITHREDOL CHWARTER

1

- 2.1. Derbyniwyd: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol.
- 2.2. Adroddwyd: Nododd y Prif Swyddog Gweithredol bod y Cynllun wedi'i ddiwygio yng ngoleuni'r pandemig. Gwnaed cynnydd da iawn.
- 2.3. Diolchodd y Bwrdd i'r staff am y perfformiad rhagorol yn ystod y chwarter, ac yn ystod y cyfnod hynod hwn.
- 2.4. Penderfynwyd: Yn unol â hynny, a bod Cynllun Gweithredol diwygiedig i'w gyflwyno yng nghyfarfod mis Tachwedd o'r Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad ac Adnoddau.

DA

3. DANGOSFWRDD

- 3.1. Adroddwyd: Nododd y Prif Swyddog Gweithredol bod y Bwrdd yn cael y newyddion diweddaraf yn rheolaidd, yn lle'r Dangosfwrdd arferol.
- 3.2. Penderfynwyd: Yn unol â hynny, a bod y newyddion diweddaraf wedi'i nodi.

4. CRYNODEB O'R NEWYDDION DIWEDDARAF AM COVID-19

- 4.1. Derbyniwyd: Adroddiad gan y Pennaeth Profiad Ymwelwyr.
- 4.2. Adroddwyd: Bod yr Amgueddfa wedi cau Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru, a bod Amgueddfa Cymru wedi egluro'r sefyllfa o ran cau safleoedd eraill â chyfyngiadau symud lleol. Roedd y Cyfarwyddwr Profiad Ymwelwyr wedi cyfarfod â chynrychiolwyr o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Cadw yn gynharach y bore hwnnw i rannu a chydlynu trefniadau. Roedd diogelwch staff ac ymwelwyr yn hollbwysig.
- 4.3. Roedd Cynrychiolydd Undeb yr FDA yn falch o adrodd pa mor chwim fu ymateb yr Amgueddfa, a'r modd roedd yn cefnogi staff trwy gyfrwng fideos ynglŷn â beth i'w ddisgwyl pan fydd pobl yn dychwelyd i'w gwaith yn yr amgueddfeydd. Roedd y staff yn cael y wybodaeth ddiweddaraf, a diolchodd i'r Cyfarwyddwr Profiad Ymwelwyr a'i thîm am eu gwaith. Diolchodd y Cyfarwyddwr yn ei thro i'r Undebau am eu hymrwymiad a'u cefnogaeth. Diolchodd y Llywydd hefyd i'r Undebau am eu llythyrau at Lywodraeth Cymru, yn nodi sefyllfa ariannol yr Amgueddfa.
- 4.4. Holodd y Bwrdd a allai'r Amgueddfa ymdopi ag agor / cau safleoedd amgueddfeydd ac ailadrodd hyn o bosibl dros y misoedd nesaf. Nododd y Cyfarwyddwr Profiad Ymwelwyr bod angen cael eglurhad o ran mynediad mewn perthynas â safleoedd dan do, a bod staff wrthi'n gweithio i roi trefniadau ar waith cyn gynted â phosibl.

	<p>4.5. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a bod y newyddion diweddaraf wedi'i nodi.</p> <p>5. EHANGU YMGYSYLLTIAD – SEFYDLIAD PAUL HAMLYN A CHYDWEITHIO Â CHYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU</p> <p>5.1. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Cyfarwyddwr Addysg a Rhaglenni Cyhoeddus.</p> <p>5.2. <u>Adroddwyd</u>: Nododd y Cyfarwyddwr Cyffredinol mai'r rheswm dros gynnwys y wybodaeth gefndir yn yr adroddiad oedd i ddangos bod datblygu perthynas yn yr hirdymor yn bwysig. Y Sefydliad gysylltodd â'r Amgueddfa i drafod y rhodd; nid yr Amgueddfa'n cysylltu i holi am gyllid. Roeddent yn gweld bod ymrwymiad yr Amgueddfa i'w gwerthoedd yn ddiffuant. Diolchwyd i'r staff am chwarae'u rhan yn y llwyddiant hwn. Nododd y Bwrdd y byddai'r Sefydliad yn ystyried ei ddyfarniad blynyddol pe baent yn teimlo bod yr Amgueddfa'n gwyrhoeddi'r cyfeiriad presennol mewn perthynas â'i diben cymdeithasol dwys.</p> <p>5.3. Nododd y Cyfarwyddwr Addysg a Rhaglenni Cyhoeddus bod yr Amgueddfa o'r farn bod ei gwaith ymgysylltu a chymdeithasol yn pontio'r holl sefydliad. Mae cysylltiad clir â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Roedd y cyllid yn amserol mewn perthynas â dechrau'r pandemig ac o ran galluogi'r Amgueddfa i ystyried sut y gallai ymateb. Byddai hyn yn dod yn rhan o'r gwaith roedd yr Amgueddfa'n ei wneud â Chyngor Celfyddydau Cymru, gan gynnal ymchwil ar y cyd. Byddai un proses ymgysylltu ar draws y ddau sefydliad.</p> <p>5.4. Nododd yr Ymddiriedolwr Glenda Jones sy'n ymddeol bod yr ymgysylltiad â rhaglen gynharach Sefydliad Paul Hamlyn <i>Ein Hamgueddfa</i> yn un o'r uchafbwyntiau iddi hi. Gallai cydweithio, cyd-ddealltwriaeth, a hygyrdded, a ddatblygwyd trwy'r rhaglen, fod yn sail i bartneriaethau eraill pe bai'r gwerthoedd hynny'n cael eu cydnabod.</p> <p>5.5. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a bod y newyddion diweddaraf wedi'i nodi.</p>	
5	<p>ADRODDIAD Y PRIF SWYDDOG GWEITHREDOL</p> <p>1. Adroddiad Ariannol</p> <p>1.1. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Prif Swyddog Gweithredol / Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol.</p> <p>1.2. <u>Adroddwyd</u>: Diolchodd y Llywydd i'r Prif Swyddog Gweithredol am reoli cyllid yr Amgueddfa. Adroddodd y Prif Swyddog Gweithredol na fu unrhyw newid i'r sefyllfa ers yr adroddiad diwethaf, a nododd bod cyfyngiadau symud lleol wedi'u cyflwyno'n ddiweddar.</p> <p>1.3. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a bod y newyddion diweddaraf wedi'i nodi.</p> <p>2. Diweddariad Digidol</p> <p>2.1. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Prif Swyddog Gweithredol / Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol.</p> <p>2.2. <u>Adroddwyd</u>: Bod y diweddariad hwn yn adeiladu ar y cyflwyniad a roddwyd i'r Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad ac Adnoddau ym mis Gorffennaf. Roedd yr adroddiad yn dangos ystod y gweithgarwch a gynhaliwyd ar draws y sefydliad. Mae hwylusydd allanol yn cael ei gyflogi i weithio â'r staff i ddatblygu strategaeth.</p>	

	<p>2.3. Aeth y Bwrdd ati i longyfarch y tîm am y gwaith a gyflawnwyd wrth greu cynnwys digidol, yn enwedig mewn perthynas â digwyddiadau megis yr ŵyl fwyd ddigidol.</p> <p>2.4. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a bod y newyddion diweddaraf wedi'i nodi.</p> <p>3. Gwybodaeth Ddiweddaraf am Adroddiad Ariannol 2019/20</p> <p>3.1. <u>Penderfynwyd</u>: Nodwyd y cynnydd o ran cynhyrchu'r adroddiad.</p>	
6	<p>DYSGU O COVID</p> <p>1. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol.</p> <p>2. <u>Adroddwyd</u>: Bod y Bwrdd wedi nodi'r meysydd gweithgarwch y bu'r Amgueddfa'n ymwneud â nhw i greu cyfleoedd a gweithgareddau dysgu digidol. Byddai hyn yn arwain at brofiad dysgu cyfunol yn y dyfodol, gan ddefnyddio ac aildefnyddio cynnwys. Roedd y Grwpiau Gorchwyl a Gorffen yn cynnwys ystod o staff yn gweithio ar y cyd yn llwyddiannus – proses fyddai'n cael ei defnyddio eto. Nododd y Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil ein bod wedi cyrraedd cynulleidfaoedd newydd a mwy amrywiol a'i bod yn amlwg y gallai'r Amgueddfa ddefnyddio ei chasgliadau mewn modd gwahanol ac mewn ffyrdd mwy rhyngweithiol. Nododd y Cyfarwyddwr Addysg a Rhaglenni Cyhoeddus lwyddiannau megis Cynhyrchwyr Amgueddfa Cymru a gweithio â phobl â phrofiadau personol. Nododd y Cyfarwyddwr Profiad Ymwelwyr y modd mae'r sefydliad wedi nodi ffyrdd o weithio sy'n wahanol ac yn aml yn well. Nododd y Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu bod y pandemig wedi arwain at drawsnewid y ffordd mae'r tîm yn ymdrin â marchnata a chyfathrebu. Roedd mwy o fentro.</p> <p>3. Nododd y Bwrdd bod angen hyblygrwydd a chysylltedd rhwng system archebu Eventbrite a'r system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (CRM) corfforaethol, a'r ffordd roedd hyn yn gysylltiedig â'r strategaeth ddigidol. Nododd y Prif Swyddog Gweithredol bod yr Amgueddfa wedi cael rhywfaint o gyllid gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu system CRM a nododd y Bwrdd bod y system yn ymdebygu fwyfwy i System Rheoli Cofnodion Electronig. Byddwn yn dilyn ymagwedd fesul cam o ran rhoi'r system ar waith.</p> <p>4. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a bod yr Amgueddfa'n ystyried sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i gefnogi gwaith yr Amgueddfa o ran ei strategaeth ddigidol.</p> <p><i>Gadawodd Bethan Page y cyfarfod am 12:50</i></p>	NW / AL
7	<p>STRATEGAETH, POLISI A CHYNLLUNIO</p> <p>1. YMGYNGHORIAD AR Y STRATEGAETH DDENG MLYNEDD</p> <p>1.1. <u>Adroddwyd</u>: Cyflwynodd y Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus a'r Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu y newyddion diweddaraf am yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Cafwyd dros 400 o ymatebion hyd yma, ac roedd y tîm wrthi'n targedu cysylltiadau a phartneriaid penodol oedd eto i ymateb i sicrhau cynrychiolaeth o bob rhan o gymunedau amrywiol Cymru. Roedd yr Amgueddfa hefyd yn cysylltu â phob Aelod o'r Senedd ac arweinwyr y pleidiau i archwilio ffyrdd y gellid cynnwys strategaeth yr Amgueddfa yn maniffestos y pleidiau. Penodwyd yr ymgynghorydd annibynnol Mathew Talfan i fynd â cham nesaf y gwaith brandio yn ei flaen.</p>	

	<p>1.2. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a bod adroddiad y Cam Darganfod, a gyflwynwyd i'r Bwrdd ym mis Mehefin yn cael ei rannu â'r Ymddiriedolwyr newydd a benodwyd. Bod sesiwn brandio ar wahân yn cael ei drefnu ar gyfer y Bwrdd.</p> <p>2. CYFATHREBU, MARCHNATA AC EIRIOLAETH</p> <p>2.1. <u>Adroddwyd</u>: Bod y newyddion diweddaraf wedi'i gynnwys yn niweddiariad yr ymgynghoriad ar y strategaeth.</p> <p>3. ASTUDIAETHAU DICHONOLDEB – AMGUEDDFA BÊL-DROED CYMRU</p> <p>3.1. <u>Adroddwyd</u>: Nododd y Dirprwy Gyfarwyddwr, Diwylliant a Chwaraeon mai prin fu'r cynnydd ers mis Mawrth 2020, o ganlyniad i'r pandemig. Roedd yn falch o adrodd bod Amgueddfa Wrecsam wedi agor ym mis Awst. Penodwyd ymgynghorwyr a byddai'r grŵp llywio yn cyfarfod y diwrnod canlynol, a byddai Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil Amgueddfa Cymru yn bresennol yn y cyfarfod. Byddai'r cyfarfod yn ystyried datblygu cynllun busnes. Nid oedd unrhyw staff wedi'u penodi i'r project hyd yma.</p> <p>3.2. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a bod y newyddion diweddaraf wedi'i nodi.</p> <p>4. CELF AR Y CYD</p> <p>4.1. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil.</p> <p>4.2. <u>Adroddwyd</u>: Bod y Cyfarwyddwr wedi nodi o ran <i>Celf mewn Ysbytai</i> bod gwaith o gasgliad yr Amgueddfa bellach mewn ysbytai mewn pedwar o'r saith Bwrdd Iechyd ledled Cymru. Roedd angen cynyddu presenoldeb yr Amgueddfa yng Ngogledd Cymru. Roedd project Instagram <i>100Celf</i> yn mynd rhagddo bellach. Byddai rhifyn cyntaf <i>Cynfas</i> yn cael ei lansio ym mis Hydref. Byddai hwn yn canolbwyntio ar Mae Bywydau Du o Bwys i gyd-fynd â Mis Hanes Pobl Dduon, a throsglwyddwyd cynnwys i Gynhyrchwyr Amgueddfa Cymru. Croesawodd y Dirprwy Gyfarwyddwr, Diwylliant a Chwaraeon gyfleoedd i hyrwyddo'r gweithgareddau hyn ar y cyd.</p> <p>4.3. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a bod y newyddion diweddaraf wedi'i nodi.</p> <p><i>Gadawodd Steffan Roberts y cyfarfod am 13:05</i></p>	CT
8	<p>AILAGOR</p> <p>1. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Profiad Ymwelwyr.</p> <p>2. <u>Adroddwyd</u>: Bod y Cyfarwyddwr a'r Llywydd yn diolch i bawb oedd yn rhan o'r gwaith o sicrhau bod ailagor yr Amgueddfeydd yn gymaint o lwyddiant. Byddai'r Amgueddfa'n parhau i ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys yr angen i ymateb i gyfyngiadau symud lleol.</p> <p>3. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a bod y newyddion diweddaraf wedi'i nodi.</p>	
9	<p>Atodiad 1</p> <p>Nodwyd y camau gweithredu o gofnodion y gwahanol Bwyllgorau a Grwpiau.</p> <p>Ymddiriedolwyr y Cynllun Pensiwn</p> <p>Mentrau AOCC Cyf</p> <p>Y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd – i ddilyn</p> <p>Y Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad ac Adnoddau</p> <p>CCB Caerllion – i ddilyn</p>	
10	<p>CANLYNIADAU AROLWG PROFFIL YMWELWYR</p>	

	<ol style="list-style-type: none"> 1. Derbyniwyd: Adroddiad gan y Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu, a sleidiau cyflwyno gan Beaufort Research. 2. Adroddwyd: Er mwyn i'r Bwrdd gael digon o amser i ystyried yr adroddiad a'r cyflwyniad, bod yr adroddiad hwn yn cael ei ystyried ochr yn ochr â'r newyddion diweddaraf o ran y strategaeth a brandio. 3. Penderfynwyd: Yn unol â hynny, a bod y cyflwyniad a'r adroddiad i'w hystyried yn ddiweddarach, ar y cyd â'r newyddion diweddaraf am y strategaeth a brandio. 	CT
11	<p>UFA</p> <p>Amrywiaeth ar y Bwrdd - yr Ymddiriedolwr Rachel Hughes Adroddodd Rachel Hughes y bu hi'n rhan o broject <i>Dwylo ar Dreftadaeth</i> am ddwy flynedd. Ariannwyd y project gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol â'r nod oedd rhoi mwy o lais i bobl ifanc 16 i 25 mlwydd oed yng ngwaith yr Amgueddfa. Roedd Ymddiriedolwyr yn ymgysylltu'n uniongyrchol â'r project a nod y project oedd creu rhaglenni newydd gan ddefnyddio dulliau ac arddulliau cyfarfod gwahanol. Roedd Meddiannu Twitter yn enghraifft o'r projectau a gynhyrwyd. Roedd yn dangos pa mor bwysig ydoedd i Ymddiriedolwyr wrando ar leisiau ifanc yn y ffordd hon, o ystyried nad oes gan yr Amgueddfa leisiau ifanc ar y Bwrdd. Diolchodd y Cyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu i Rachel Hughes am fod yn fentor hefyd i un o aelodau'r grŵp, ac roedd yn croesawu trafodaeth bellach â'r Bwrdd ynglŷn â sut i ddatblygu'r gwaith hwn. Nododd y Llywydd yr archwiliwyd cyfleoedd mentora a chysgodi â sefydliadau eraill ac roedd y tîm Gweithredol yn ystyried sut i ddatblygu hyn ymhellach, yn enwedig o fewn yr amgylchedd digidol.</p> <p>Cyfarwyddwr Cyffredinol Adroddodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol bod swydd y Rheolwr Ymchwil bellach yn cael ei hysbysebu. Nodwyd bod yr Ymddiriedolwyr yn aelodau o Gymdeithas yr Amgueddfeydd a bydd cynhadledd eleni ar ffurf digwyddiad digidol ac anogwyd yr holl Ymddiriedolwyr i fynychu'r digwyddiad.</p> <p>Penderfynwyd: Yn unol â hynny, a bod y ddolen i gynhadledd Cymdeithas yr Amgueddfeydd yn cael ei rhannu â'r holl Ymddiriedolwyr.</p> <p>Llywydd Diolchodd y Llywydd i'r Ymddiriedolwyr oedd yn ymddeol, Glenda Jones a Robert Pickard am eu gwaith, eu cefnogaeth a'u hymrwymiad i'r Amgueddfa. Ar ran yr Ymddiriedolwyr, roedd hefyd yn dymuno cofnodi ei ddiolch i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r holl staff. Yn ystod y cyfnod hynod heriol hwn, roedd yn bwysig bod pawb yn wynebu un dydd ar y tro i sicrhau iechyd a llesiant pawb. Diolchodd i gynrychiolwyr yr Undebau Llafur am eu cefnogaeth, gan nodi y byddai'r Amgueddfa'n gryfach gyda'n gilydd o ganlyniad.</p>	EC
	<p>Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf</p> <p>Penderfynwyd: Bydd cyfarfod nesaf Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn dechrau am 9:00am ar 10 Rhagfyr 2020.</p>	